CIWB

**Tasg 1**

# Beic newydd

Darllenwch y darn eto.

1. Ydych chi'n cofio?

Mae 8 camgymeriad yn y ddeialog isod. Cywirwch nhw.

**Marc:** Ga i feic newydd i'r Nadolig os gwelwch yn dda?
**Dad:** Beic newydd?!?!?!. Pam wyt ti eisiau beic newydd?
**Marc:** Achos mae'r hen un wedi torri. Edrycha – dw i'n hoffi'r beic yma.
*(Mae Marc yn pwyntio at feic mewn catalog.)*
**Dad:** Bobl bach! Saith can punt!!!
**Marc:** Ond edrycha, Dad, mae e'n hyfryd. Mae'r lliwiau – glas a du – yn berffaith. Dw i wrth fy modd gyda'r beic yma ac mae "Dual Pivot Calliper Brakes" ... ac wyth gêr ... ac mae ...
**Dad:** Pam wyt ti eisiau wyth gêr? Mawredd mawr!
**Marc:** Ond, Dad ...
**Dad:** Na, Marc. Mae saith can punt yn llawer o arian. Mae e'n llawer iawn o arian.
**Marc:** Ond mae un deg dau y cant i ffwrdd ... mae e ar y sêl ...

- 
- 
- 
- 
- 
- 
- 
- 

Cymharwch eich syniadau chi â syniadau partner.

| Geirfa | |
|---|---|
| camgymeriad | mistake |
| cywiro | to correct |
| wedi torri | broken |